# Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014

**2014 dccc 6**

*Cyflwyniad*

## 1 Trosolwg

Mae'r Ddeddf hon yn gwneud darpariaeth ynghylch—

(a) sefydlu Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru,

(b) gwneud gorchmynion sy'n nodi'r telerau a'r amodau ar gyfer personau a gyflogir mewn amaethyddiaeth yng Nghymru ("gweithwyr amaethyddol"), ac

(c) gorfodi'r telerau a'r amodau hynny.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 1 mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 19**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014, Adran 1.